

Rhannu eich gwybodaeth gyda Llywodraeth Cymru

Bydd rhywfaint o'r wybodaeth a gedwir amdanoch yn cael ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn helpu i gynnal ymchwil i wella'r gofal a'r cymorth sy'n cael ei ddarparu i chi a phobl eraill yng Nghymru. Bydd yr wybodaeth yn cael ei rhannu'n gyfreithlon, ac yn cael ei defnyddio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil i gefnogi busnes swyddogol yn unig.

Pa wybodaeth fydd yn cael ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru?

- | | |
|---|---|
| <ul style="list-style-type: none">✓ Rhywfaint o wybodaeth bersonol amdanoch, fel:<ul style="list-style-type: none">• dyddiad geni• rhywedd• grŵp ethnig• statws anabled• gwybodaeth arall am iechyd✓ Manylion sylfaenol am y gofal neu'r cymorth a ddarparwyd i chi✓ Gwybodaeth gan eich ysgol am eich addysg | <ul style="list-style-type: none">✗ <u>Ni</u> fyddwn yn rhannu eich enw✗ <u>Ni</u> fyddwn yn rhannu enwau eich teulu a/neu ofalwyr✗ <u>Ni</u> fyddwn yn rhannu eich cyfeiriad |
|---|---|

Sut bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio fy ngwybodaeth?

- | | |
|---|--|
| <ul style="list-style-type: none">✓ Helpu i gynllunio gwasanaethau i bobl Cymru✓ Mesur ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu er mwyn eu gwella✓ Helpu i gynnal ymchwil i lesiant pobl - gall hyn gynnwys ei gyfuno â gwybodaeth o fath arall, fel data am iechyd neu addysg | <ul style="list-style-type: none">✗ Ni fydd unrhyw gamau yn cael eu cymryd mewn perthynas â chi'n bersonol✗ Ni fydd modd eich adnabod o unrhyw adroddiadau✗ Ni fydd gwybodaeth yn cael ei rhannu na'i chyfuno mewn unrhyw ffordd a allai olygu bod modd eich adnabod |
|---|--|

Beth yw fy hawliau o ran defnyddio data amdanaf?

- | | |
|---|--|
| <ul style="list-style-type: none">➔ hawl i gael eich hysbysu (y rhybudd hwn)➔ hawl i gael mynediad at y data personol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch chi➔ hawl i gywiro unrhyw wallau yn y data hynny➔ hawl i wrthod neu gyfyngu ar gamau prosesu'r data (mewn amgylchiadau penodol) | <ul style="list-style-type: none">➔ hawl i ofyn am ddileu eich data (mewn amgylchiadau penodol)➔ hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data. |
|---|--|

A yw fy ngwybodaeth yn ddiogel?

Bydd yr wybodaeth sy'n cael ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru yn cael ei hanfon a'i storio'n ddiogel. Byddwn yn ei rheoli'n ofalus, er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei defnyddio yn y ffyrdd sy'n cael eu nodi yma yn unig.

A yw casglu'r data yn gyfreithlon?

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu'r data gan ddefnyddio pwerau sydd wedi'u gosod mewn deddfwriaeth, ac i sicrhau bod modd i ni gyflawni swyddogaethau cyhoeddus a gofynion statudol.

Am ba hyd fyddwch chi'n cadw'r data?

Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw'r data nes pen-blwydd y plentyn/oedolyn yn 25 oed. Bryd hynny bydd y data'n cael eu gwneud yn ddiennw, ac yn parhau i gael eu defnyddio at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unig.

Rhagor o wybodaeth

I gael disgrifiad llawn o'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru; eich hawliau a'r wybodaeth gyfreithiol berthnasol; neu ar gyfer cwynion, ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad isod.

<http://llyw.cymru/statistics-and-research/local-authority-social-services-data-collections/?lang=cy>

Tîm Casglu Data
Gwasanaethau Gwybodaeth a
Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Llawr 4 y De, CP2, Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost:
ystadegau.gwascymdeithasol@llyw.cymru